

Ffurflen Flynyddol Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022

Datganiadau cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer:

Enw'r corff:

Cyngor Cymuned Bro Machno

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
	31 Mawrth 2021 (£)	31 Mawrth 2022 (£)	

Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau

1. Balansau a ddygwyd ymlaen	7315	8618	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	5500	5500	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	1250	6558	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	200	600	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	5247	9637	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	8618	10439	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).

Datganiad o falansau

8. (+) Dyledwyr	0	0	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	8618	10439 +7.84 (cyfrif cynilion) =10447.07	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	0	0	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	8618	10439	Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad gan drydydd partiön ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	Ydy	Nac ydy	Amh	Ydy	Nac ydy	Amh	Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).
	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Canllaw i Ymarferwyr
	Do	Naddo*		
<p>1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
<p>3. Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
<p>4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. Methodd Archwilio Cymru ag anfon hysbysiad archwilio felly cafodd yr hysbysiad archwilio ei arddangos yn hwyr.	6, 23
<p>5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol.	6, 9
<p>6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
<p>7. Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
<p>8. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

	Do	Naddo	Amh		3, 6
<p>9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. 	○	○	●	Cyflawni ei holl gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol *

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1. Gwariant dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae Adran 137(1) Deddf 1972 yn caniatáu i'r Cyngor wario ar weithgareddau nad oes ganddo unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er lles, ac y bydd yn dwyn budd uniongyrchol i, yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant. Mae Adran 137(3) hefyd yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant at rai dibenion elusennol ac eraill. Yr uchafswm gwariant y gellir ei ysgwyddo dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 oedd £8.41 yr etholwr.

Yn 2021-22, fe wnaeth y Cyngor daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £ 1750= dan adran 137. Mae'r taliadau hyn wedi'u cynnwys o fewn 'Taliadau eraill' yn y Datganiad Cyfrifyddu.



2.

3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.	Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: Cyfeirnod cofnod: 20221117
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: 	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: 
Enw: Daniel Tomos	Enw: DAFYDD GWYNDAF.
Dyddiad: 27 Hyd 2022	Dyddiad: 29/10/22

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon o dan adran 13 o'r Ddeddf, p'un a yw unrhyw faterion sy'n dod i'm sylw yn peri pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi'u bodloni. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rwy'n ardstyio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 o:

Cyngor Cymuned Bro Machno

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio – Amodol

Ac eithrio'r materion a adroddwyd isod yn fy Sail ar Amod, ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos dros bryder, mewn unrhyw ffordd berthnasol, fod y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw'r deddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nad yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Cyngor; a
- nad oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Sail ar Amod

Datganiad Cyfrifeg

Ni allaf ddod i'r casgliad a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno trafodion a sefyllfa ariannol y Cyngor yn iawn ai peidio:

- Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol i gefnogi'r derbynebaw a'r taliadau yr adroddwyd amdanynt ynghylch incwm claddu a derbynebaw eraill. Nid yw'r Cyngor yn cadw cofnodion cyfrifyddu addas ar gyfer incwm a dderbyniodd y Cyngor.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â threfniadau'r Cyngor yn y flwyddyn:

- Atodiad 1 – paratoi datganiadau cyfrifeg. Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol a chyflawn i gefnogi'r ffigurau a gofnodwyd. Nid yw'r Cyngor wedi darparu cofnodion cyfrifyddu digonol i gefnogi'r ffigurau a gofnodwyd.
- Atodiad 1 – rheolaeth ariannol effeithiol. Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau unrhyw ffurflenni TAW ac nid yw'n cadw cofnod ar wahân o TAW o fewn ei lyfr arian parod. Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn cwblhau ffurflenni TAW ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau TAW perthnasol a gyhoeddwyd gan CThEM ac Un Llais Cymru.
- Atodiad 2 – system ddigonol o reolaeth fewnol. Nid yw'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau yn gyflawn ac yn gadarn. Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer gwneud taliadau.
- Atodiad 2 – system ddigonol o reolaeth fewnol. Nid oes gan y Cyngor drefniadau digonol ynghylch ei fancio a rheoli arian parod.
- Atodiad 2 – cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol. Nid yw'r Cyngor wedi darparu na sefydlu rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog yn seiliedig ar fodel Un Llais Cymru/NALC. Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn adolygu ac yn mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol newydd yn ffurfiol yn unol â chanllawiau Un Llais Cymru.
- Atodiad 3 – diffyg cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer. Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth bod cyllideb wedi'i gosod yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a bod y praesept wedi'i osod yn unol â'r gyllideb. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i incwm wrth bennu ei ofyniad cyllidebol. Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn gosod cyllideb yn unol â Deddf 1992 ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Materion eraill yn codi ac argymhellion

Rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r corff fynd i'r afael â nhw.

Tryloywder

Dylai'r Cyngor sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd, papurau ategol a phenderfyniadau yn cael eu cyhoeddi. Dylai'r Cyngor sicrhau eu bod hefyd yn cyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau'r Aelodau ar wefan y Cyngor. Dylai'r Cyngor sicrhau eu bod yn cyhoeddi copïau llawn o'i ffurflen flynyddol cyn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys y datganiad cyfrifyddu, AGS a'r farn archwilio.

Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn cyhoeddi'r holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â busnes y Cyngor ar ei wefan er budd bod yn agored ac yn dryloyw.

Cwblhau cyfrifon blynyddol

Cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau ei fod yn cyfrif hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer archwiliad etholwyr o'r cyfrifon hynny fel y nodir yn yr hysbysiad archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai hefyd hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol am unrhyw newid yn y manylion cyswllt. Ni pharatoedd y Cyngor ei gyfrifon 2021-22 yn unol â'r amserlen a osodwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Rydym yn argymhell yn y blynyddoedd i ddod bod y Cyngor yn sicrhau bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu paratoi erbyn 30 Mehefin fan bellaf. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn cyfrifon 2022-23 i'w harchwilio eto.

Nid oes unrhyw faterion pellach yr hoffwn dynnu sylw'r Cyngor atynt.



**Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Cymru
O blaid ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Dyddiad: 08/09/2023

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Llyfrau Ariannol a thudalennau banc ar gael i'w harchwilio yn rheolaidd
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Bob taliad a gyflwynwyd i'r llyfr arian sydd wedi cael ei gefnogi gan anfonebau ac awdurdodi i'w talu.
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Unrhyw weithgareddau anarferol a nodwyd ac unrhyw risgiau yn cael eu nodi au rheoli.
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Eiddo y gyllideb wedi ei baratoi ai fabwysidadau. Gwirioneddol perfformiad yn erbyn y gyllideb i'w fonitro yn rheolaidd ac amrywiannau a drafodwyd.
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Incwm a dderbynnir a gytunwyd gyda blaendaliad i'r banc a dogfennau yn cefnogi. Dim tystiolaeth o oedi mewn banc
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cyflogau yn cael eu delio yn fewnol. Dim tystiolaeth am daliadau cyflogau amhirdol
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo ⁺	Amh.	Heb ei gynnwys ^{**}	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cyfnodol a cysoniadau banc diwedd blwyddyn yn cael eu paratoi a chytunio l gofnodion ariannol
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datganiadau cyfrifyddol wedi eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau sydd wedi eu cytuno gyda llyfr ariannol a tystiolaeth dogfenol
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusenol). Mae'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):					
	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo ⁺	Amh.	Heb ei gynnwys ^{**}	
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
14. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun


* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor dyddiedig _____.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: J Llywelyn Hughes Ai Gwmni
Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: 
Dyddiad: 10/11/2022